







Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran TGCh
# Peiriannydd Rhwydwaith
## Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd




# Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth o swyddi amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Mae technoleg yn elfen hanfodol o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi cyflawni ei weithgareddau dyddiol; p'un ai yw hynny'n anfon ein criwiau rheng flaen allan i ddigwyddiadau gweithredol, gan sicrhau bod ganddyn nhw fynediad at wybodaeth hanfodol o risgiau, neu systemau ategol sy'n rheoli ein hadnoddau, gan gynnwys systemau swyddfa gefn fel y Rhestr Gyflogau a Chyllid i systemau rheng flaen fel Terfynellau Data Symudol ar ein peiriannau tân - mae technoleg yn cyffwrdd â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Mae ein gwerthoedd sylfaenol yn ymwneud ag ymdrechu am ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl

Rydym yn chwilio am Beiriannydd Rhwydwaith i ymuno â'n Hadran TGCh brysur, sydd fel arfer wedi'i lleoli yn ein swyddfeydd yng Nghonwy.

Bydd y Peiriannydd Technegol yn adrodd yn ôl i'r Rheolwr Technegol a cyn sicrhau bod rhwydwaith TGCH a systemau telegyfathrebu yn gweithio'n iawn o ddydd i ddydd trwy ddarparu gwybodaeth dechnegol a chefnogaeth. Byddwch yn gweithio mewn amgylchedd heriol lle mae'n rhaid bod yn fanwl gywir, byddwch hefyd yn helpu gyda gosodiadau, ail ddilysu, atgyweirio ac ail ddylunio'r rhwydwaith a'r isadeiledd telegyfathrebu, bod yn bwynt cyswllt cyntaf a darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth arbenigol i gydweithwyr a defnyddwyr.

Bydd rhaid i'r sawl a benodir fod yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Trwy ddulliau datrys problemau manwl byddant yn cymryd cyfrifoldeb dros dasgau a'u cwblhau.

Bydd angen i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ddangos y sgiliau canlynol (gyda thystiolaeth), fel yr amlinellir yn y disgrifiad o'r swydd ac ym manylion y person:

- Profiad gweithredol o rwydweithiau i safon CCNA neu gyfatebol
- Profiad o weithio yn adran Technoleg Gwybodaeth
- Sylw da i fanylion ac agwedd drefnus at ddatrys problemau
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol a hyfforddi eraill
- Y gallu i gwblhau gwaith ar amser a gweithio dan bwysau.
- Profiad o fethodoleg ITIL yn ddymunol
- Mae profiad o weithrediad systemau Solarwinds, Microsoft Server ac Active Directory yn hynod ddymunol
- Trwydded yrru lawn y DU a'r gallu i deithio pan a phryd fi angen
- Amodol ar wiriadau dilysu NPV
- Gallu cynnal sgwrs syml yn y Gymraeg hyd at Lefel 2 - os nad ydych chi'n gallu arddangos hyn wrth ymgeisiom bydd rhaid ei gyflawni yn ystod cyfnod prawf o 12 mis, gyda chefnogaeth ar gael lle bo'n addas.



# Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi

## Talu

Gradd 06

Cyflog Sylfaen: Gan ddechrau ar £30,559y flwyddyn, gan godi i £33,366 y flwyddyn

Mae'r rôl yn denu lwfans o 8.5% ar gyfer ymuno â'r rota ar alwad; Y cyflog wedyn yw £33,156 i £36,202 y flwyddyn yn gynhwysol.

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, dydd Llun i Friday. Mae'r lleoliad sylfaen yng Nghonwy gyda'r potensial i wneud rhywfaint o waith o bell neu o leoliadau gwasanaeth tân amgen.

Rydym yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn ceisio cymaint â phosibl i gefnogi staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref. Mae gennym bolisi gweithio hyblyg i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo'n ymarferol ar gyfer y rôl, y gellir ei drafod ymhellach yn ystod y cyfweliad.

## Rota ar alwad

Oherwydd bod technoleg yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer ein criwiau rheng flaen a gweithredol, mae'r tîm TGCh yn darparu cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau critigol yn ystod oriau anghymdeithasol ar benwythnosau.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymuno â'r tîm ar alwad, ac ar ôl ei sefydlu'n llawn, bydd hyn wedyn yn denu lwfans ychwanegol o 8.5%.

## Manteision cyflogaeth

- Gwyliau blynyddol hael, gan ddechrau am 25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus
- Cynllun oriau hyblyg sy'n caniatáu i staff weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyfrannol i'r cyflogwr
- Byddwn yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi i ddatblygu eich potensial
- Cymorth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cymorth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fanteision ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr, darparwyr hamdden a gwasanaethau.

# Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Post** | Peiriannydd Seilwaith |
| **Adran** | Adran TGCh |
| **Adroddiadau i** | Rheolwr Systemau |
| **Lleoliad** | Conwy |

## Diben Swydd Cyffredinol

Cynorthwyo'r Rheolwr Seilwaith TGCh i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ar bob agwedd ar rwydweithiau, cyfathrebu sefydlog a symudol a'i bynciau cysylltiedig trwy ddarparu gwybodaeth dechnegol a chymorth ar draws ystod o ddyfeisiau a thechnolegau.

Darparu pwynt uwchgyfeirio cychwynnol i'r sefydliad ar gyfer rhwyd-weithiau, cyfathrebu sefydlog a symudol. Darparu dogfennaeth, arweiniad a chefnogaeth i gydweithwyr yn yr adran TGCh a'r gymuned defnyddwyr.

Gweithio mewn amgylchedd heriol lle mae manwl gywirdeb ac atebolr-wydd yn hollbwysig.

Cynorthwyo'r Tîm Seilwaith gyda, a gweithio tuag at ganllawiau NCSC ar arferion gorau systemau a gweithredu lefel uchel o ddiogelwch technegol ar draws holl dechnolegau'r Gwasanaeth.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Sicrhau fod y systemau rhwydwaith a thelathrebu yn rhedeg yn llyfn o ddydd i ddydd. Monitro perfformiad rhwydwaith, tueddiadau a digwyddiadau. Cynghori ac argymell gweithgareddau i'r Rheolwr Seilwaith TGCh ar yr holl faterion technegol sy'n ymwneud â'r rhwydwaith a'r systemau cyfathrebu.

2. Cynorthwyo gyda gosodiadau, cywiro diffygion, atgyweirio ac ailddylunio'r seilwaith. Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, addasu, gwneud copi wrth gefn a chlytio pob dyfais rhwydwaith a thelathrebu. Cynorthwyo'r tîm Seilwaith gyda thasgau tebyg sy'n gysylltiedig â'r system.

3. Cynorthwyo gydag ymchwil a datblygu technolegau Seilwaith TGCh ac asesu eu heffaith a'u haddasrwydd ar gyfer amgylchedd y Gwasanaeth.

4. Darparu cefnogaeth i'r timau TGCh eraill ar gyfer materion seilwaith. Cysylltu â darparwyr gwasanaethau ac offer ac awdurdodau cyhoeddus. Cynrychioli'r tîm Seilwaith mewn cyfarfodydd.

5. Cynorthwyo gyda chynhyrchu manylebau contract a chwmpasoedd prosiect. Adolygu ac addasu tariffau a chynlluniau prisiau i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

6. Cynhyrchu ystadegau ac adroddiadau; ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

7. Rhaeadru gwybodaeth trwy gynhyrchu dogfennaeth, arweiniad llafar a hyfforddiant i gydweithwyr yn yr adran TGCh ac yn y gymuned defnyddwyr.

8. Cynnal lefelau stociau digonol. Diweddaru a chynorthwyo gydag archwilio'r gronfa ddata asedau.
9. Cymryd rhan mewn rota i ddarparu cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau critigol yn ystod oriau anghymdeithasol a phenwythnosau.
10. Cynorthwyo'r tîm Seilwaith gyda phrosiectau a thasgau pan fo angen i gyrraedd targedau, terfynau amser a darparu gwytnwch.
11. Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd a'r rôl.

## Cyfrifoldeb Gorchwylio

Goruchwylio cyflenwyr, contractwyr ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â darparu nwyddau neu wasanaethau.

## Cyfrifoldeb Ariannol

Dim

## Cysylltiadau y tu Allan i'w Hadran

Holl staff WFRS. Cymheiriaid mewn gwasanaethau brys eraill ac awdurdodau lleol, cyflenwyr, ymgynghorwyr a chontractwyr. Ar adegau, aelodau'r cyhoedd.

## Gofynion Iaith

Lefel 2 (i'w gyflawni o fewn cyfnod prawf) – Yn ei gwneud yn ofynnol eich bod yn gallu;

Deall y sgyrsiau'n y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofynnwch gwestiynau syml a deall atebion syml. Mynegwch farn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Cliriad diogelwch NPPV Lefel 2.

## Hyfforddiant Gorfodol

Cydymaith Rhwydwaith Ardystiedig Cisco.

## Arall

Gweithio'n bennaf o dan do.  Efallai y bydd angen ymweld â safleoedd eraill gan gynnwys y rhai sy'n cael gwaith adnewyddu.  Bydd angen gweithio mewn lleoliadau diogelwch uchel.

Cyfrifoldeb holl staff yw diogelu, a disgwylir i bawb fod yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol wrth sicrhau diogelwch a lles eraill.

# Manyleb Person

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad Cymwysterau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Cymhwyster rhwydwaith cydnabyddedig fel y CCNA neu safon gyfatebol neu wedi ei gwblhau o fewn y cyfnod prawf. |
| | O leiaf 2 flynedd o brofiad o ddarparu cefnogaeth rhwydwaith ar draws safleoedd gan ddefnyddio technolegau WAN/LAN gan ystyried arferion gorau diogelwch |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Gwybodaeth am fethodoleg ITIL |
| | Dealltwriaeth o systemau gweithredu Microsoft Server a Active Directory |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun. |
| | Y gallu i weithio gyda chyfrinachedd ac uniondeb. |
| | Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol a hyfforddi neu addysgu eraill |
| | Unigolyn hunan-gymhelliant. |
| | Y gallu i gwblhau gwaith ar amser a gweithio dan bwysau. |
| | Sylw i fanylion |
| | Sgiliau datrys problemau metegol |
| | Cymraeg Lefel 2 — i'w asesu ar ddiwedd y cyfnod prawf |
| | Y gallu i yrru a meddu ar drwydded yrru lawn yn y DU |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Hyblygrwydd mewn oriau gwaith. |

# Sgiliau Cymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn y dylid trin y Saesneg a'r Gymraeg ar sail cydraddoldeb wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd mater iaith o ddifrif dros nifer o flynyddoedd. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod manteision gwasanaeth cadarnhaol cynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth - mae'r mater iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Gofyniad Cymraeg y swydd hon yw lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgiliau | Gofynion Safonau'r Gymraeg |
|---|---|
| **Siarad / Gwrando** | ▪ Able to understand the gist of conversations in work.<br>▪ Able to respond to simple job-related requests and requests for factual information.<br>▪ Able to ask simple questions and understand simple responses.<br>▪ Able to express opinions in a limited way as long as the topic is familiar.<br>▪ Able to understand instructions when simple language is used. |
| **Darlleniad** | ▪ Gallu deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a gwybodaeth nad yw'n rheolaidd ar faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â maes gwaith eich hun e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni |

Bydd asesiad Cymraeg byr yn cael ei gynnal ar ddechrau cyflogaeth a bydd ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn siarad Cymraeg i lefel 2 yn cael 12 mis o'u penodi i'r rôl i gyflawni hyn.

Rydym yn cydnabod bod dysgu iaith yn cymryd amser ac ymrwymiad ac mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at ddysgu rôl newydd a chefnogir yr ymgeisydd llwyddiannus i gyflawni'r lefel ofynnol.



# Sut i ymgeisio

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@northwalesfire.gov.wales neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu â Steve Morris, Pennaeth TG ar 01745 352774

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | **09:00 ar 19/05/2025** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service